**Cerdd Iaith:** Ym mis Mehefin, roedd 5 ysgol wedi cofrestru ac wedi mynychu'r ail rownd o hyfforddiant Cerdd Iaith. Golyga hyn, ynghyd â'r hyfforddiant ym mis Tachwedd / mis Rhagfyr, bod 20 o athrawon ar draws y rhanbarth wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r adnoddau Cerdd Iaith.

**Darparu cefnogaeth uniongyrchol i athrawon cynradd trwy raglen Athrawon yn Dysgu i Addysgu Ieithoedd (TELT) y Brifysgol Agored.**

**Cwrs TELT y Brifysgol Agored ac Athrawon Cyswllt**:

Mae 9 o athrawon wedi cofrestru ar gwrs TELT y BA ar gyfer 2021-2022 (7 ar gyfer rhan 1, 2 ar gyfer rhan 2).

Ers 2018 ac erbyn Mehefin 22, bydd 31 o athrawon ar draws y rhanbarth wedi cwblhau'r cwrs hyfforddiant blwyddyn i ddysgu ac addysgu IRh mewn ysgol gynradd. Bydd 8 ohonynt wedi cwblhau'r ail flwyddyn hefyd.

Yn 2019, dewisodd y BA un o'n hathrawon i ddod yn Athro Cyswllt a bydd yn parhau mewn rôl fonitro a chefnogaeth yn y rhanbarth ac ar draws Cymru am y drydedd flwyddyn yn olynol.

**Addysgu a Dysgu Ieithoedd yn yr ystafell ddosbarth gynradd: egwyddorion ac adnoddau addysgegol**:

'Research in Primary Languages: Teacher Education Toolkit' gan Dr Alison Porter (Prifysgol Southampton) a'i Chydweithwyr - adnoddau clir a chryno i'w rhannu sy'n amlinellu'r prif egwyddorion o ran addysgu a dysgu Iaith Ryngwladol. Mae pob rhan yn canolbwyntio ar 3 prif egwyddor ac maent yn cynnwys ystod o fideos gan ymarferwyr sy'n rhannu eu gwaith yn y dosbarth. Ceir hefyd dasg darllen ymchwil ac ymarfer ar gyfer pob rhan. Mae gwybodaeth ar gael yng Nghanolfan Cefnogaeth GwE ac mae'r holl adnoddau ar gael am ddim ar gais.

**<u>Sector Uwchradd</u>**

**Consortia i ddarparu cefnogaeth trwy'r model Hybiau Rhanbarthol**

**Canolfan Cefnogaeth GwE: Ieithoedd Rhyngwladol** - mae adran ITM/IRh wedi'i datblygu bellach o fewn Canolfan Cefnogaeth GwE i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau clir a chyfredol ar gyfer addysgu a dysgu ITM/IRh yn y sector uwchradd hefyd, fel cynigion a chyfleoedd yng nghyswllt Dyfodol Byd-eang. Caiff pob athro fynediad i'r wefan a gallant ddod o hyd i ddolenni a chysylltiadau ar gyfer parhau i ddatblygu eu hymarfer ac i gefnogi eu taith i 2022 a thu hwnt.

Saesneg: http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/?lang=en

Cymraeg: http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/.

**Cefnogaeth Ysgol i Ysgol**

Gofynnwyd am gymorth rheolaidd gan Benaethiaid o 3 ysgol unigol. Mae'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar gynllunio, asesu a chynnydd, addysgu a dysgu. Darperir cymorth i ysgolion/adrannau unigol. Cynlluniwyd cyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer pynciau penodol bob hanner tymor i ymateb i anghenion a nodwyd gan athrawon ac i gefnogi agweddau ar Addysgu a Dysgu yn CA4/CA5, ac i ategu gwaith yr ymgymerwyd ag ef gan y grwpiau rhanbarthol a lleol a drefnwyd gan y gwasanaeth gydag ysgolion o bob cwr o'r rhanbarth.

Yn dilyn ein cyfarfod rhwydwaith yn yr haf (1af Gorffennaf 2021), cwblhaodd ysgolion arolwg ynghylch eu hanghenion o ran eu paratoadau ar gyfer y CiG. Dyma'r agweddau y dymuna athrawon gael cymorth ar eu cyfer yn nhrefn blaenoriaeth:

- Asesu: beth a sut
- Cynllunio o fewn MDPh
- Egwyddorion o ran cynllunio'r Cwricwlwm
- Egwyddorion o ran cynnydd
- Datganiadau o ran yr Hyn sy'n Bwysig a Chamau Cynnydd
- Cynllunio ar draws MDPh
- Pontio Cynradd-Uwchradd
- Dadbacio ILlCh

Anghenion/cwestiynau neu awgrymiadau eraill:

- Sut i gyflawni a sicrhau cynnydd gydag amserlen gyfyngedig iawn (1 wers yr wythnos)
- Effeithiau'r pandemig
- Pa elfennau o'r CiG sydd ar waith yn barod yn y sector cynradd
- Effaith newidiadau o ran TGAU ar gynllunio ar gyfer CA3

- Cysylltu ITM â phynciau eraill, yn enwedig ym mlwyddyn 7, pan nad yw dysgwyr wedi meistroli'r elfennau sylfaenol
- Sut i groesi llwybrau'n llwyddiannus o fewn y MDPh ILlCh
- Sefydlu trwp Teams i gefnogi adrannau llai

Bydd ein cefnogaeth i ymateb i'r anghenion hyn yn unol â'r rhwydwaith cefnogaeth sydd ar waith gan y gwasanaeth, ac yn digwydd ochr yn ochr â hynny. Ei nod fydd ategu ac nid dyblygu'r gwaith a wneir gan y grwpiau rhanbarthol a lleol.

**Archwiliadau a chynlluniau ar gyfer rhoi cefnogaeth**
Cafodd data ar gyfer 2020-2021 ei goladu ddiwedd Gorffennaf a dechrau mis Medi. Mae 50/54 o ysgolion wedi cwblhau'r archwiliad. Cafwyd gostyngiad cyffredinol yn nifer y rheiny a oedd yn astudio ieithoedd gyda gostyngiad sydyn mewn sawl ysgol lle nad oedd modd rhedeg rhai dosbarthiadau y llynedd. Roedd hanesion o lwyddiant yn galonogol iawn hefyd, ac fe gafodd syniadau a rannwyd o ran hybu ieithoedd eu coladu a'u rhannu â'r Penaethiaid Adran ar draws y rhanbarth. Anogwyd ysgolion i ymgysylltu â gweithgareddau partneriaid Dysgu Byd-eang er mwyn hybu diddordeb mewn ieithoedd a'r niferoedd sy'n eu hastudio. Bydd cefnogaeth barhaus i hybu ieithoedd yn parhau. Mae data ar gyfer 2021-2022 yn cael ei archwilio a chaiff ei ddadansoddi yn ddiweddarach y tymor hwn.

**Prosiect Creu ar Draws Ieithoedd (Barddoniaeth Greadigol):**
Yn dilyn y gwaith a wnaed y llynedd rhwng YCG GwE a Phrifysgol Bangor, rydym bellach wedi cychwyn ail gam y prosiect ar gyfer cydweithredu ag ysgolion. Cafodd ysgolion eu recriwtio a mynychwyd eu cyfarfod cyntaf (22/09/21) er mwyn cael deall nodau a disgwyliadau'r prosiect a'r modd yr ydym yn cydweithredu. Nod y prosiect yw cyflwyno barddoniaeth fel modd creadigol o archwilio ieithoedd a hunaniaethau. Bydd ysgrifennu creadigol ar draws ieithoedd yn helpu dysgwyr i feddwl am eu bywydau eu hunain trwy'r amlieithrwydd sydd o'n cwmpas, a bydd yr ymagwedd ymarferol hon yn rhoi hyder iddynt o ran defnyddio ieithoedd â mynegiant.

Mae hwn yn fodel posibl o ran sut i ddylunio uned o waith a sut i feddwl am ddylunio'r cwricwlwm o fewn MDPh, ond gyda'r potensial i gysylltu'r dysgu â MDPh eraill, ac ar draws MDPh. Mae'n hyblyg ac yn addasadwy er mwyn i ysgolion gael profi a datblygu'r model a fydd yn addas ar gyfer eu hysgol a'u cyd-destun lleol.

Rhannwyd adnoddau a chytunwyd ar gynllun gweithredu ar gyfer cwblhau gwaith treialu a gwerthuso erbyn mis Mawrth 2022 ac i'w rannu erbyn haf 2022. Crëwyd Google Classroom i bawb ar gyfer hwyluso cydweithredu a rhannu gwaith sy'n esblygu. Mae cymorth parhaus a chyfarfodydd monitro rheolaidd wedi'u cynllunio i gefnogi ac arwain ysgolion.

**Ymwybyddiaeth o iaith yn CA3- Amlieithrwydd**
Sefydlwyd cysylltiadau traws-gonsortia i weithio ar y cyd ar addasu a threialu'r adnoddau mewn ysgolion yng Nghymru.

**Darparu cefnogaeth uniongyrchol i ysgolion uwchradd trwy brosiect mentora Prifysgol Caerdydd ar gyfer 2021-22. Hyrwyddo ac annog ymgysylltiad ysgolion mewn cynlluniau Mentora**
Mentora blwyddyn 8/9: roedd cyfathrebu a chydweithredu effeithiol ag ysgolion ar draws y rhanbarth wedi arwain at 21 o ysgolion yn ymgeisio i'r rhaglen. Ymhlith y 15 ysgol a ddewiswyd, roedd 5 yn ysgolion nad oeddynt erioed wedi cymryd rhan o'r blaen. Felly mae'r prosiect yn cyrraedd ystod ehangach o ysgolion.

**CALU - LlDCD**

**Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu drwy weithredu'r rhaglen hyfforddiant ar draws y rhanbarth.**
**Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu profiadol drwy weithredu'r rhaglen CALU ar draws y rhanbarth.**

**Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi**
Mae 3 cymhorthydd wedi cwblhau yr hyfforddiant rhwng Ebrill ac Awst 2021, gyda 55 cymhorthydd wedi cofrestru ers dechrau Medi 2021 hyd yn hyn. Cyfanswm o 58 allan o darged o 100 ar gyfer y flwyddyn. Caiff manylion yr hyfforddiant ei rannu yn y Bwletin wythnosol ac yn y Dosbarth Google.
**Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith**

Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gwaith a chefnogi staff. Mae'r niferoedd o ysgolion sydd wedi manteisio ar hwn yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd capasiti.

## STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI / GOFALWYR

**Arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn. Sicrhau cyflwyno "Helpu eich plentyn i ddysgu" yn effeithiol i ysgolion a rhieni a gofalwyr ar draws Cymru.**
**Sicrhau cydlyniant a chapasiti addas i ddarparu adnoddau rhanbarthol o safon uchel yn y maes hwn.**

Sefydlwyd y grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth gan GwE a phob ALl i arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn. Dyma'r prif ddatblygiadau ar gyfer chwarter 2:

- Mae pecyn cyfryngau cymdeithasol wedi'i gynhyrchu a'i ddosbarthu i ysgolion.
- Mae datblygwr yr adnodd wedi gweithio ochr yn ochr â GwE, gan rannu gwybodaeth ag ysgolion.
- Mae datblygwr yr ymchwil wedi creu 'Help Your Teen to Learn' (HYTTL) ar gyfer blwyddyn 9 i fyny, sy'n cael ei gyfieithu ar hyn o bryd.
- Bydd y Grŵp Rhanbarthol yn cyfarfod nesaf ar ddydd Iau 1af Tachwedd i drafod darpariaeth ar gyfer rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol, i gyflwyno'r adnoddau HYTTL a thrafod cynlluniau ar gyfer rhaglen ar gyfer cymorthyddion i gefnogi rhieni o fewn amgylchedd yr ysgol.

## AILGYNNAU DYSGU

**Gweithredu rhaglenni sy'n ceisio lliniaru effaith cau ysgolion ar gyrhaeddiad darllen ac ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg.**
**Strategaeth addysgu wedi'i llywio gan dystiolaeth wedi'i dylunio i helpu disgyblion wella eu rhuglder a chynnydd mewn mathemateg.**
**Datblygu adnoddau ar-lein sy'n addas i staff ysgol a rhieni i alluogi defnyddio'r ymyriadau hyn i helpu gyda datblygiad darllen plant dros y flwyddyn ysgol nesaf.**
**Parhau i ddatblygu a chreu cyfres o ddeunydd cefnogi cyffredinol ar gyfer mathemateg uwchradd a llythrennedd uwchradd.**

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) – GWEDD 2**

Dechreuodd tîm ymchwil RILL waith Gwedd 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn anghydamserol/cydamserol gwreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020, ac mae'r rhain bellach yn cynnwys fersiwn wedi'i addasu i'w ddefnyddio yn y dosbarth a hefyd i rieni a gofalwyr. Cafodd gwahoddiadau i ysgolion fynychu hyfforddiant yn nhymor yr haf a thymor yr hydref 2021 eu cylchredeg ym mis Mehefin 2021. Bu i YCG GwE fynychu cyfarfodydd y fforwm penaethiaid rhanbarthol i egluro'r rhaglen. Cafodd RILL ei groesawu'n gadarnhaol iawn yn y cyfarfodydd hyn, yn arbennig y fersiwn Cymraeg newydd sydd wedi'i deilwra.

Mae 29 o'r 54 ysgol wedi'u hyfforddi mewn RILL hyd yma, ac mae hyn yn cynnwys 43 o athrawon. Gwahoddwyd y 25 ysgol arall i fynychu sesiwn erbyn diwedd tymor yr hydref 2021. Yn ogystal â diwrnod llawn o hyfforddiant, mae GwE ar hyn o bryd yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol i gefnogi athrawon. Mae GwE hefyd wedi datblygu rhwydwaith Hwb lle gall athrawon gael mynediad at wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant (e.e. tiwtorialau a fideos ar sut i wneud pethau), gofyn cwestiynau a myfyrio ynghylch eu profiadau gyda'r tîm ymchwil/athrawon eraill.

**Addysgu Manwl a SAFMEDS**

Ni fydd astudiaeth ymchwil sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn dechrau tan fis Medi 2021.

- Bu sesiynau 'galw heibio' misol ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth
- Darparwyd hyfforddiant wedi'i theilwra i ysgolion y rhanbarth ac UCDau
- Hyrwyddwyd SAFMEDS trwy'r Bwletin a Chanolfan Cefnogaeth GwE
- Crëwyd adnoddau dwyieithog yn barod i'w lansio'n fuan:
  - Tiwtorial ar-lein SAFMEDS
  - Gwefan bwrpasol SAFMEDS
  - Hyfforddiant diwygiedig SAFMEDS ar gyfer cardiau llaw
  - Cyflwyniad i Hyfforddiant Addysgu Manwl
  - Cardiau llaw SAFMEDS fel rhan o wedd ychwanegol i ymestyn y ddarpariaeth o'r Fframwaith Rhifedd

